# SL(5)230 - Rheoliadau Tir a Halogwyd yn Ymbelydrol (Addasu Deddfiadau) (Cymru) (Diwygio) 2018

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Tir a Halogwyd yn Ymbelydrol (Addasu Deddfiadau) (Cymru) 2006 ("Rheoliadau 2006").

Mae Rhan 2A o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn nodi cyfundrefn ar gyfer adnabod tir halogedig a'i adfer. Gwnaeth Rheoliadau 2006 ddarpariaeth i Ran 2A fod yn gymwys, gydag addasiadau, at ddiben ymdrin â niwed y gellir ei briodoli i unrhyw ymbelydredd sy'n perthyn i unrhyw sylwedd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o becyn o fesurau i drosi Cyfarwyddeb y Cyngor 2013/59/Euratom dyddiedig 5 Rhagfyr 2013 sy'n gosod safonau diogelwch sylfaenol ar gyfer diogelu rhag y peryglon sy'n codi o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio ("y Gyfarwyddeb").

Mae'r Rheoliadau hyn yn trosi rhai o ofynion Erthygl 73(1) o'r Gyfarwyddeb yn ogystal â gwneud diwygiadau i adlewyrchu diffiniadau newydd yn y Gyfarwyddeb.

## Y weithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd tri phwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad**

Mae'r rheol 21 diwrnod yn ei gwneud yn ofynnol bod 21 diwrnod calendr yn mynd heibio rhwng: (a) y dyddiad y gosodir offeryn statudol sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol gerbron y Cynulliad, a (b) y dyddiad y daw'r offeryn statudol i rym. Daw'r Rheoliadau hyn i rym 19 diwrnod ar ôl eu gosod gerbron y Cynulliad, felly mae'r rheol 21 diwrnod yn cael ei thorri.

Rydym yn nodi'r achos hwn o dorri'r rheol ac yn diolch i Julie James AC, Arweinydd y Tŷ, am yr esboniad a roddir yn ei **llythyr dyddiedig 18 Mehefin 2018**. Rydym yn cytuno mai effaith gyfyngedig y bydd yr achos hwn o dorri'r rheol yn ei chael ar Gymru, gan nad oes tir a halogwyd yn ymbelydrol wedi'i nodi yng Nghymru.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad**

Rydym yn nodi eglurder, defnyddioldeb a thryloywder y Memorandwm Esboniadol, a pha mor ddefnyddiol y mae wedi bod i'r Pwyllgor wrth graffu'r Rheoliadau hyn.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(iv) – mae'n rhoi deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ar waith yn amhriodol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi'r Gyfarwyddeb ar waith (h.y. Cyfarwyddeb y Cyngor 2013/95 Euratom). Fodd bynnag, dylai fod wedi cael ei roi ar waith erbyn 6 Chwefror 2018. Rydym yn croesawu'r cyfeiriad at yr oedi yn y Memorandwm Esboniadol a'r esboniad ynglŷn â sut y mae'r rhan fwyaf o ofynion y cyhoedd yn ymwneud â datguddiad y Gyfarwyddeb eisoes wedi'u gweithredu mewn deddfwriaeth ddomestig flaenorol. Rydym hefyd yn nodi'r effaith gyfyngedig y gallai'r oedi ei chael ar Gymru yn rhinwedd y ffaith nad oes dim tir a halogwyd yn ymbelydrol wedi'i nodi yng Nghymru.

Serch hynny, nodwn i'r terfyn amser gael ei golli o 4 mis ac rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru gadarnhau a yw wedi bod yn gohebu â'r Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â'r oedi ac a oedd posibilrwydd realistig o gwbl y gallai'r oedi hwn fod wedi arwain at achos yn erbyn y Deyrnas Unedig am dorri cyfraith Ewropeaidd.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

O ran statws Euratom yn y DU, mae'r Bil Trefniadau Diogelwch Niwclear (sy'n aros am Gydsyniad Brenhinol ar hyn o bryd) yn darparu ar gyfer trefniadau diogelwch niwclear ar ôl i'r DU adael Euratom.

Mae'r Bil Trefniadau Diogelwch Niwclear yn darparu, ymhlith pethau eraill, fod yn rhaid i Lywodraeth y DU wneud cais i'r Cyngor Ewropeaidd am i drefniadau Euratom perthnasol barhau i gael effaith yn y DU ar ôl y diwrnod ymadael os na wnaed trefniadau digonol erbyn 1 Mawrth 2019 mewn cysylltiad â chytundebau newydd rhwng y DU a phartïon rhyngwladol eraill sy'n ymwneud â threfniadau diogelwch niwclear ac ynni atomig.

O dan yr amgylchiadau hynny, byddai Llywodraeth y DU yn gofyn am i drefniadau Euratom barhau i gael effaith yn y DU ar ôl y diwrnod ymadael hyd nes y byddai trefniadau digonol yn cael eu gwneud mewn cysylltiad â'r cytundebau rhyngwladol newydd.

## Ymateb y Llywodraeth

**Ymateb i'r Pwyntiau Craffu ar sail Rhinweddau**

**Pwynt 3.**

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch yr oedi cyn trosi'r rhannau o'r Gyfarwyddeb Safonau Diogelwch Sylfaenol sy'n ymwneud â thir a halogwyd yn ymbelydrol. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi bod mewn cysylltiad â'r Comisiwn ynghylch trosi'r Gyfarwyddeb yn ehangach, ac nid ystyrir ei bod yn rhesymol debygol y bydd achos torri cyfraith Ewropeaidd yn cael ei ddwyn yn erbyn Aelod-wladwriaeth y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**21 Mehefin 2018**